

Sadwrn 28ain a Sul 29ain Gorffennaf



Ewch am Aur yn y Caws Mawr!

Bydd y noson agoriadol Penwythnos Caws Mawr ar Gwener 27ain Gorffennaf eleni gyda thema Olympaidd arbennig ac mae trigolion yn cael eu hannog i ddod draw i'r dathliad unwaith mewn oes.

Mae'r Caws Mawr yn cyd-fynd â seremoni agoriadol y Gemau Olympaidd yn Llundain ar Nos Wener 27ain Gorffennaf. I nodi'r achlysur arbennig hwn, bydd hyd yn oed mwy o atyniadau ar gael ar y safle ŵyl yng Nghaerffili:

Ras Caws Mawr

Mae'r digwyddiad blynyddol poblogaidd hwn yn fwy na cyfatebol am y ddrama a chyffro sy'n digwydd yn y stadiwm Olympaidd! Dewch draw am 6.00pm a dangoswch eich cefnogaeth wrth i dimau rasio o amgylch cwrs arbennig sy'n cario cosyn o gaws Caerffili!



Seremoni Agoriadol Olympaidd yn FYW ar y Sgrin Fawr

Bydd sgrin deledu fawr yn cael ei chodi ar y safle Caws Mawr fel y gall pobl wylïo'r seremoni agoriadol y Gemau Olympaidd sy'n digwydd a mwynhau awyrgylch y Caws Mawr.

Gorymdaith y Cenedloedd

Mae trigolion yn cael eu hannog i wisgo eu lliwiau cenedlaethol gyda balchder ac ymuno â gorymdaith arbennig gan y Ganolfan Croeso Caerffili i'r safle Caws Mawr yn dechrau am 6.30pm.

Rydym am weld cymysgedd o genhedloedd a chefnidiroedd ethnig i adlewyrchu'r dathliadau yn Llundain.

Yna, ar **Ddydd Sadwrn 28ain a Dydd Sul 29ain Gorffennaf**, ddechreuir y Penwythnos **Caws Mawr** a sbri gyda rhaglen adloniant yn cynnwys ail-greu arddangosfeydd, adloniant cerddorol, gweithgareddau addysgol, neuadd fwyd, stondinau crefft, gweithgareddau babell, pabell Tommy Cooper, ffair enfawr a llawer mwy.

Ewch i www.caerffili.gov.uk/cawsmawr am fwy o fanylion.



Cymuned yn dathlu ar Laswelltiroedd Aberbargod

Mae gwerddon wyrdd yng nghanol y fwrdeistref sirol wedi dod yn Warchodfa Natur Genedlaethol (GNG) gyntaf y wlad mewn lleoliad trefol.

Mae Glaswelltiroedd Aberbargod yn gyfoeth o fioamrywiaeth ac yn gartref i bili-pala brith y gors, sydd mewn perygl o ddiplannu'n gyfan gwbl, yn ogystal â nodweddion bywyd gwylt eraill megis ffyngau, glaswelltir cyfoethog, pyllau a gwrychoedd.

Fe wnaeth y gymuned droi allan mis diwethaf i ddathlu'r lansiad a chymeradwyo plant ysgol leol wrth iddynt gymryd rhan yn y 'Gorymdaith Pili Pala' lliwgar i nodi'r achlysur arbennig. Mae mwyafrif y Gwarchodfeydd Natur Genedlaethol yng Nghymru wedi eu lleoli mewn ardaloedd gwledig, arfordirol neu ucheldir, felly'r safle hwn yn arbennig o bwysig i De Cymru oherwydd ei agosrwydd at gymuned drefol.

Cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, John Griffiths, y dynodiad yn y digwyddiad, "Cyn heddiw, roedd Gwarchodfeydd Natur Genedlaethol ledled Cymru, ond nid yng Nghymoedd y Dwyrain na'r Cymoedd Canolog. Mae gwarchodfeydd natur fel hyn yn gyfle gwych i bobl ddysgu mwy am fyd natur a bywyd gwylt mewn ffordd gynaliadwy."

Dywedodd y Cynghorydd Ken James, Aelod Cabinet CBSC dros Adfywio, Cynllunio a Datblygu Cynaliadwy, "Rydym wrth ein bodd fod y safle wedi cael ei ddatgan yn Warchodfa Natur Genedlaethol, gan y bydd yn ein galluogi i wella ymhellach y cyfleoedd cynefin a chynnyddu ar gyfer y gymuned i fwynhau'r mannau gwyrdd pwysig."



Mae nifer o welliannau amrywiol wedi digwydd ar y safle diolch i arian grant gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Amcan 1, Cronfa Datblygu Ranbarthol Ewrop, Rhaglen Blaenau'r Cymoedd ac Ymgyrch Parc Rhanbarthol y Cymoedd 'Calon ac Ysbryd y Cymoedd.'



Noson hudolus o gerddoriaeth!

Mae Proms yn y Parc y BBC yn dychwelyd i Gaerffili ar Ddydd Sadwrn yr 8fed o Fedi yng Nghaeau Chwarae Owain Glyndŵr y tu ôl i Gastell Caerffili.

Ymunwch â Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC am noson hudol o gerddoriaeth o dan y sêr, gan gynnwys cytganau bywiog, ffefrynau cerddorfaol a chanu.

Prisiau tocynnau yw £10 o flaen llaw neu £12 ar y diwrnod gyda phlant 12 a iau yn rhad ac am ddim. Bydd y gatiau'n agor am 4.30pm, ac y Prom yn dechrau am 7.45pm. Gellir prynu

tocynnau drwy ffonio Swyddfa Docynnau Sefydliad y Glowyr Coed Duon ar **01495 227206**. Gallwch hefyd brynu tocynnau ar-lein yn www.blackwoodminersinstitute.com (Mae tâl o £1.00 am archebu ar-lein).

I brynu o Linell Cynulleidfa Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, ffoniwch **03700 101051**, oriau agor yw Dydd Llun - Gwener 9am - 7pm. Bydd taliadau safonol daearyddol o linellau tir a ffonau symudol yn gymwys.

Fel arall i brynu tocynnau yn bersonol dewch i Ganolfan Croeso Caerffili, sydd ar agor 7 diwrnod yr wythnos 10am - 5.30pm.

Am ragor o fanylion ewch i www.bbc.co.uk/promsinthepark

Eich Newline

"Cynhyrchir Newline gan y cyngor i ddod â'r newyddion diweddaraf a gwybodaeth atoch o ar draws y fwrdeistref sirol. Rydym yn awyddus i glywed eich sylwadau am y cyhoeddiad a byddwn yn croesawu unrhyw adborth. Cysylltwch â fi os oes unrhyw ymholiadau gennych am y wybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn Newline a byddaf yn danfon eich sylwadau ymlaen at yr adran berthnasol. Cofiwch - cewch fersiynau sain a phrint bras o Newline ar gais."

Stephen Pugh - Golygydd e-bost: pughs@caerffili.gov.uk

Post: Uned Gyfathrebu, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG.

Apêl Cofeb Mwyngloddio Genedlaethol

Ymwelodd y Prif Weinidog â Senghenydd y mis diwethaf i lansio Apêl Cofeb Mwyngloddio Genedlaethol cyntaf yng Nghymru.



Cyhoeddodd Carwyn Jones AC cynlluniau gan Grŵp Treftadaeth Cwm Aber i godi cofeb tirnod yn agos at y hen safle Glofa Fyd-eang yn Senghenydd a fydd yn gofeb i bob cymuned glo ar draws Cymru, tra hefyd yn anrhydeddu dioddefwyr y trychineb Glofa Fyd-eang.

Lladdwyd cyfanswm o 440 o ddynion a bechgyn

ym 1913 yn dilyn ffrwydrad anferth ar y safle. Effeithiodd y trychineb ar bron bob cartref yng Nghwm Aber a theimlwyd yr effaith hynny o amgylch y byd.

Bydd y prosiect yn cynnwys gardd wedi'i thirwedu, wal o goffa, ardal barcio fach ynghyd â darparu cerflun tirnod symbolaidd, teimladwy ac adnabyddadwy, a fydd yn ffocws o barch i Lowyr Cymru.

Mae cynlluniau yn symud ymlaen oherwydd y gefnogaeth ariannol oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cronfa Dreftadaeth y Loteri (£48,800) a chyfraniadau cymunedol amrywiol.

Fodd bynnag, gyda chyfanswm cost prosiect o dros £200,000 mae o hyd diffyg o gyllid ac felly mae'r Grŵp yn ceisio cael cefnogaeth

Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau y gall yn deyrnged addas cael ei ddarparu a fydd yn rhannu ymdeimlad o falchder ar yr holl awdurdodau mwyngloddio yng Nghymru.

Am fwy o wybodaeth am y cynllun neu i gael gwybod sut y gallwch chi wneud cyfraniad, cysylltwch â Grŵp Treftadaeth Cwm Aber ar **(02920) 830444 / 5** neu ebost: senghen.heritage@btconnect.com.

www.abervalleyheritage.co.uk



Gwobrwyo llwyddiant rygbi

Mae tri tîm rygbi lleol wedi cael eu cydnabod gan y Maer am eu cyflawniad yn y twrnamaint Cwpan SWALEC ddiweddar.

Fe wneath cynrychiolwyr o Glwb Rygbi Pêl-droed Tredegar Newydd, Clwb Rygbi Pêl-droed Penallta a Chlwb Rygbi Pêl-droed Crosskeys fynychu digwyddiad arbennig yn swyddfeydd y cyngor Tŷ Penallta lle cawsant eu cyflwyno â thystysgrif cyflawniad gan y Maer, Cyng. Gaynor Oliver. Cafodd y tri tîm y cyfle i chwarae yn Stadiwm y Mileniwm ym mis Mai yn ystod rownd derfynol twrnamaint mawreddos blyneddol SWALEC.

- Daeth **Tredegar Newydd** yn agos i fuddugoliaeth yn y **Bowlen SWALEC** gan golli i Glyncoch mewn gêm agos iawn.
- Curodd **Penallta** Nant Conwy yn y rownd derfynol i hawlio'r **Plât SWALEC**.
- Enillodd **Crosskeys** y teitl **Cwpan SWALEC** ar ôl curo enillwyr 4 gwaith Pontypridd.

Fe wnaeth arweinydd Cyngor, y Cyng. Harry Andrews, longyfarch y timau, "Gallwch i gyd fod yn falch o'r cyflawniadau gwyh hyn - dyna pam rydym yn credu ei bod yn bwysig cydnabod yn ffurfiol eich ymdrechion yn y ffordd hon. Roedd hefyd yn wych gweld y gymuned gyfan yn dod at ei gilydd yn ystod y gystadleuaeth gyda channoedd o bobl o bob oed yn teithio i lawr i Stadiwm y Mileniwm i gefnogi'r chwaraewyr."

Roedd Lloyd Burns, cyn fachwr Pont-y-Pŵl, Crosskeys, Dreigiau Gwent Casnewydd a Chymru, hefyd yn bresennol i ddangos ei gefnogaeth i'r timau.



Mae hyfforddeion yn mynd i'r afael â throseddau amgylcheddol

Mae'r cyngor wedi recriwtio tri hyfforddai newydd i dim lechyd yr Amgylchedd, gan roi iddynt brofiad amhrisiadwy o ran gweithgareddau gorfodaeth amgylcheddol a rheolaeth pla. Bydd yr hyfforddeion hyn yn hyrwyddo ymagwedd dim goddefgarwch y cyngor o ran troseddau taflu sbwriel a baw cŵn.

Bydd Leah Price, Alex Meade a Morgan Davies yn cwblhau prentisiaeth dwy flynedd gyda'r tîm lechyd yr Amgylchedd, a byddant yn cyfrannu at waith diflino'r tîm i sicrhau diogelwch yr holl drigolion yn ein bwrdeistref.

Dyweddodd y Cyngorydd Dave Poole, aelod cabinet ar gyfer gwasanaethau cymunedol a hamdden, "Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â materion baw cŵn, sbwriel a thipio anghyfreithlon a bob amser yn anelu at amddiffyn y cyhoedd rhag niwed. Yr wyf yn falch o groesawu'r prentisiaid newydd, ac rwy'n hyderus y byddant yn parhau â'r gwaith caled mae'r Tîm lechyd yr Amgylchedd yn gwneud bob dydd."

Dechreuodd Leah, o Goed Duon, ei phrentisiaeth gyda'r Tîm Rheoli Pla a Chŵn ym mis Ebrill, yn ymuno â thîm sydd ag ymrwymiad i fynd i'r afael â baw cŵn ar draws ein bwrdeistref, sy'n arwain at dros 400 o gw'n crwydr yn cael eu powndio bob blwyddyn. Ymunodd Alex a Morgan â'r tîm ym mis Mai a byddant yn canolbwyntio ar orfodaeth o ran troseddau taflu sbwriel, baw cŵn a thipio anghyfreithlon.



Newyddion o bwys i Fargod

Mae gwaith adeiladu ar fin dechrau ar ddatblygiad siopau hirddisgwyliedig yng nghanol tref Bargod. Mae gwaith paratoadol ar gyfer y cynllun, sy'n cynnwys siop fawr newydd nodweddiadol Morrisons yn rhan ohono, wedi bod ar y gweill dros yr ychydig fisoedd diwethaf, ond cyn bo hir bydd y trigolion yn gweld y datblygiad trawiadol yn codi.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, Cyng. Harry Andrews, "Bydd y cynllun trawiadol hwn yn rhoi bywyd newydd i'r dref ac mae'n argoeli dyfodol newydd cyffrous i Fargod. Ynghyd â gwaith ehangach Prosiect Adfywio Cymunedol Bargod Fwyaf, rydym yn gweddnewid canol y dref ac mae pawb yn edrych ymlaen at weld gwaith yn dechrau ar y safle."

Mae'r gwelliannau ar hyd pen gogleddol y Stryd Fawr wedi cael eu cwblhau'n ddiweddar. Mae siopwyr

yn elwa o'r palmentydd lletach a'r dodrefn stryd deniadol, sy'n rhoi cipolwg ar sut y bydd canol y dref yn edrych ar ôl cwblhau'r cynllun hwn, sy'n costio £8 miliwn, y flwyddyn nesaf.

Mae gweithiau celf deniadol wedi cael eu gosod, gyda mwy i ddilyn, gan gynnwys Angel Gwarcheidol yn edrych dros y dref a Cherflun Cenhinen Bedr yn dangos presenoldeb Bargod i'r gymuned o'i hamgylch.

Bydd cam nesaf y gwaith yn dechrau ym mis Medi ac yn parhau am 10 mis. Bydd hyn yn canolbwyntio ar ran ddeheuol y Stryd Fawr wrth Heol Hanbury a bydd yn cynnwys gweddnewid gorsaf fysiau Sgwâr Hanbury yn fan cyhoeddus newydd.

Mae prosiect Adfywio Canol Tref Bargod, sy'n costio £8 miliwn, yn cael ei gyflawni diolch i arian oddi wrth Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Cydgyfeirio'r Undeb Ewropeaidd, a thrwy Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir a Rhaglen Blaenau'r Cymoedd Llywodraeth Cymru.



www.bargoedsbigidea.co.uk

BIGidea Bargoed
Sŷniad Mawr

M
MORRISONS



Alex Fox (Prif Weithredwr Rhannu Bywydau), y Cyng. Harry Andrews (Arweinydd CBSC), Simon Burch (Prif Swyddog, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, Sir Fynwy), Albert Heaney (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol Caerffili), Anthony O'Sullivan (Prif Weithredwr, Caerffili).

Lansio Partneriaeth 'Rhannu Bywydau'

Mae cynghorau Caerffili, Blaenau Gwent, Merthyr, Sir Fynwy, Casnewydd a Thor-faen wedi ymuno â'i gilydd i weithio ar y cyd i ddarparu Cynllun Lleoli Oedolion gwell.

Mae'r cynllun, sy'n cael ei arwain gan Gaerffili, wedi cael ei sefydlu i bontio'r bwlch rhwng oedolion sydd ag anghenion arbennig a'r gwasanaethau arbenigol sydd eu hangen arnynt.

Cynhaliwyd digwyddiad arbennig yn Nhŷ Penallta, swyddfeydd y cyngor yn Ystrad Mynach i lansio'r cynllun De-ddwyrain Cymru i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes gofal oedolion.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, y Cyng. Harry Andrews, "Mae'r cynllun newydd yn darparu'r gwasanaethau cywir i'r bobl sydd eu hangen a bydd yn helpu i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w bywydau. Beth sy'n gwneud y bartneriaeth hon yn unigryw yw ei bod yn pontio'r bwlch fel y gall oedolion sy'n agored i niwed gael mynediad at wasanaethau pwrpasol i ateb eu hangenion penodol."

Peidiwch â cholli'ch pleidlais yn 2012

Mae'r Cyngor yn pwysu ar bobl leol i sicrhau eu bod ar y gofrestr etholwyr trwy ymateb i'r Canfasiad Blynyddol.

Mae'r ffurflenni canfasio'n cael eu dosbarthu i gartrefi ledled yr ardal ar hyn o bryd ac mae modd ymateb yn gyflym ac yn hawdd. Dywedodd Anthony O'Sullivan, Prif Weithredwr a Swyddog Canlyniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, "Mae'r neges yn syml – os ydych eisiau i'ch llais gael ei glywed mae angen i chi sicrhau eich bod ar y gofrestr etholwyr. Mae cofrestru i bleidleisio'n syml ac rwy'n pwysu ar bawb i gadw golwg am eu ffurflen canfasio a dilyn y camau syml i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys."

Mae'r Cyngor yn awyddus i atgoffa pobl leol ei bod yn bwysig iawn cwblhau'r ffurflen canfasio am y rhesymau canlynol:

- Rhaid i chi fod ar y gofrestr etholwyr i bleidleisio.
- Mae'n bosibl na fyddwch yn gallu cael credyd os nad ydych arni (mae asiantaethau credyd yn edrych ar y gofrestr etholwyr).
- Rydych chi'n torri'r gyfraith os nad ydych chi'n ymateb i'r canfasiad.

Mae pobl ifanc fydd yn cyrraedd deunaw oed yn ystod y flwyddyn nesaf yn grŵp oedran allweddol a dargedir yn yr ymgyrch. Yn draddodiadol mae'r grwpiau oedran iau wedi bod â chyfradd ymateb is i'r canfasiad, felly bydd y Cyngor yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i helpu i ledu'r neges mor eang ag sy'n bosibl. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y canfasiad blynyddol, ffoniwch Dîm Etholiadol y Cyngor ar **01443 864405** neu ewch i www.caerffili.gov.uk.



Y
Comisiwn
Etholiadol

Balchder Bro 2012

Caiff ysgolion, grwpiau cymunedol, busnesau ac unigolion ar draws y fwrdeistref sirol eu hannog i ddangos bod ganddynt falchder bro drwy ymgeisio i ennill cystadleuaeth newydd cyffrous.

Trefnir gwobrau Balchder Bro 2012 gan y cyngor i gydnabod ymdrech, arloesedd ac ymrwymiad y rhai sy'n helpu i wneud ein hardal yn lanach, yn saffach ac yn wyrddach ac yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld.

Trefnwyd y gystadleuaeth am y tro cyntaf y llynedd ac yn y seremoni wobrwyo gyntaf a gynhaliwyd yn Nhy Penallta, swyddfeydd y cyngor yn Ystrad Mynach, mis Tachwedd diwethaf. Ysgol y Lawnt yn Rhymni enillodd y brif wobwr a'r gobaith yw y bydd ceisiadau â hyd yn oed mwy o ansawdd yn cael eu derbyn eleni.

Bydd enillwyr pob categori yn derbyn gwobr ariannol o £500 a byddant yn gymwys ar gyfer y wobwr fawreddog enillydd cyffredinol.

Mae'r cynllun gwobrau yn agored i holl drigolion, ysgolion, busnesau a grwpiau cymunedol o fewn yr ardal. Caiff pob cais eu hasesu gan banel annibynnol. Bydd yr ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i noson wobrwyo ar 23 Tachwedd, 2012. **Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw Dydd Gwener 5 Hydref, 2012.**

Mae SEDA, cwmni pecynnu rhyngwladol mawr gyda safle ger Coed Duon, wedi cytuno i fod yn noddwr allweddol ar gyfer gwobrau 'Balchder Bro' eleni.

Am fwy o wybodaeth am y categorïau ewch i www.caerffili.gov.uk neu cysylltwch â Rhodri Lloyd ar **01443 866566** neu e-bostiwrch: balchderbro@caerffili.gov.uk.



follow us on...

Am fwy o wybodaeth ewch i www.caerffili.gov.uk

DILYNWCH NEVILLE... AR WYLIAU!

Mae tymor yr haf yma, ac mae'n hen bryd i Neville, y ddafad gael gwyliau!

Rydym yn galw ar drigolion ar draws y fwrdeistref sirol i gymryd rhan a chymryd Neville ar wyliau gyda nhw! Dafad hoffus y cartwnydd Gren yw masgot cyfryngau cymdeithasol y cyngor, ac rydym yn chwilio am drigolion, p'un a ydynt yn cael eu gwyliau yn yr Aifft, Awstralia neu yma yng Nghymru i gymryd Neville ar wyliau gyda hwy a thynnu lluniau ohono fe o flaen tirnod.

Mae gennym ddetholiad o eitemau hyrwyddol gan gynnwys peli traeth a ffrisbîs i gyd gyda Neville wedi'u hargraffu arnynt, a byddem wrth ein bodd i drigolion i rannu eu lluniau o Neville ar ein tudalen www.facebook.com/caerphillycbc - gyda gwobr arbennig ar gyfer y llun gorau!

Cadwch lygad allan am y tîm mewn digwyddiadau yn ystod yr haf, gan gynnwys y Caws Mawr, lle byddwn yn dosbarthu'r eitemau hyrwyddo - yn y cyfamser, anfonwch e-bost at unedcyfarthrebu@caerffili.gov.uk i wneud cais am eitem Neville.



Dilynwch ni! @caerphillycbc



www.facebook.com/caerphillycbc

Hwb £1 miliwn wi-fi ar gyfer ysgolion

Mae'r holl ysgolion ar draws y fwrdeistref sirol Caerffili yn mynd i elwa ar gysylltiad cyflymder uchel ryngwrwyd wi-fi diolch i fuddsoddiad £1 miliwn gan y cyngor.

"Mae hyn yn gwneud ein hysgolion yn rhai o'r cysylltiadau gorau yng Nghymru," dywedodd y Cynghorydd Rhianon Passmore, Aelod Cabinet dros Addysg "Rydym am roi'r cyfleusterau gorau i blant yn yr amgylcheddau dysgu gorau posib, felly rydym yn falch iawn o fod yn arwain y ffordd eto o ran helpu i godi safonau."

Bydd y buddsoddiad yn gosod ysgolion Caerffili ar flaen y gad o ran dysgu yng Nghymru. Bydd y cysylltiadau gwell yn caniatáu mwy o hyblygrwydd ar gyfer dysgu, gwell ymgysylltu a'r disgyblion ac yn y pen draw bydd yn codi safonau cyrhaeddiad.

Bydd rhwydweithiau diwifr yn galluogi myfyrwyr i ddefnyddio technolegau newydd megis gliniaduron, diwifr iPads a rhannu data gan ddefnyddio systemau TG cyflym a diogel. Bydd holl ysgolion CBSC hefyd yn buddio o'r symud

draw i'r rhwydwaith PSBA (y rhwydwaith band-eang sector cyhoeddus) a fydd yn darparu cyswllt cyflymach i ganolfan ddata a rhyngwrwyd yr Awdurdod. Mae'r cynllun yn cael ei gyflwyno ar ôl cynllun peilot llwyddiannus mewn dwy ysgol leol - Ysgolion Greenhill a Sant Iago. Ers hynny mae 20 o ysgolion eraill wedi derbyn Wi-fi gan Wasanaethau TG yr Awdurdod a bydd y gweddill yn derbyn hyn erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae'r costau gweithredu wi-fi ym mhob ysgol yn £992,000. Mae hyn yn cynnwys £435,000 ar gyfer ysgolion uwchradd, £552,000 ar gyfer ysgolion cynradd a £5,000 ar gyfer ysgolion arbennig. Bydd ysgolion yn talu 75% o'r costau ac mae'r cyngor yn cyfrannu 25%.

"Bydd y buddsoddiad yn gosod ysgolion Caerffili ar flaen y gad o ran dysgu yng Nghymru."



Byw bywyd 'oddi ar y grid'

Mae gwaith wedi dechrau ar y gwaith o adeiladu 'eco-fferm' o'r radd flaenaf ym Man-moel. Mae'r cynllun, r safle Fferm Maes-yr-Onn, yn cael ei hybu fel enghraifft o ragoriaeth ym maes datblygu cynaliadwy.

Mae'r ffermwr lleol Arthur Davies a'i wraig Sue yn gweithio'n agos gyda'r cyngor i ddatblygu cynlluniau i adeiladu ty fferm newydd ar y safle.

Mae lleoliad anghysbell yn golygu nad oes gwasanaethau cyflenwad trydan, nwy, dw'r neu garthion. Mae'r Cyngor a'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu (y BRE) wedi bod yn cefnogi'r teulu er mwyn cyflawni'r cynllun gydag ystod o atebion cynaliadwy.


Gan y bydd Fferm Maes-yr-Onn yn dŷ "oddi ar y grid", bydd gan yr eiddo yr ôl-troed leiaf bosibl ar yr amgylchedd ehangach a bydd yn cynnig amryw o dechnolegau 'gwyrdd' megis:

- **Panelli ffotofoltaidd**
- **Storio gan fatri ar y safle**
- **Panelli solar sy'n gwresogi dŵr**
- **Stof llosgi pren**
- **Casglu dŵr glaw**

Ymwelodd y Cynghorydd Ken James, aelod cabinet ar gyfer datblygu cynaliadwy â'r safle yn ddiweddar i weld y cynnydd, "Mae Fferm Maes-yr-Onn yn gyfle unigryw i arddangos technoleg adnewyddadwy mewn safle sy'n llwyr oddi-ar-y-grid. Mae'r adeilad yn ymgorffori ysbryd y ty hir Cymreig traddodiadol ac mae'n ategu lleoliad yr ucheldir gyda golygfeydd ysblennydd. Rydym bellach yn edrych ymlaen at weld y prosiect yn datblygu a'r technolegau gwyrdd ar waith."

Merch Arthur, Bronwen, oedd hyrwyddwraig newid hinsawdd i Gymru a hefyd yn ddiweddar oedd un o'r bobl yn dal y Fflam Olympaidd yng Nghaerffili.

Mae'r prosiect yn cael ei hyrwyddo fel enghraifft arfer gorau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu ill dau, sydd wedi cefnogi'r datblygiad.



Cefnogi Busnesau Gwledig

Mae tîm Cynllun Datblygu Gwledig (CDG) y cyngor yn awyddus i gefnogi busnesau yn y 14 ward gwledig ar draws y fwrdeistref sirol.

Gall busnes cymwys gael mynediad at ystod eang o gefnogaeth a chynghor gan y tîm, sy'n gweithio'n galed i hyrwyddo, meithrin a gwella cymunedau gwledig hyfyw a chynaliadwy yn yr ardal.

Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig Cymru (CDG) yn cael ei ariannu ar

y cyd gan yr Undeb Ewropeaidd (UE) fel rhan o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin drwy Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, a Llywodraeth Cymru. Bydd yn rhedeg tan 2013.

Am fwy o wybodaeth ffoniwch y tîm Cynllun Datblygu Gwledig ar 01443 838632 neu ewch i www.caerffili.gov.uk

Jac yn taro'r nodyn iawn

Curodd Jack Mainwaring, y Prif Fachgen yn Ysgol Gyfun Pontllan-fraith, cystadleuaeth brofiadol eleni yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, i ennill y wobr gyntaf yn y categori Unawd Chwythbrennau.

Teithiodd Jack, 16 oed, i Eryri yng Ngogledd Cymru i gystadlu yn un o'r gwyliau ieuenctid diwylliannol mwyaf yn Ewrop. Creodd argraff fawr ar y beirniaid gyda pherfformiad fflwiwt hudolus o Hypnosis gan Ian Clarke.

Yn flaenorol enillodd Jack Gerddor Ysgolion Caerffili Ifanc y Flwyddyn yn 13 oed, a fu yn chwarae'r fflwiwt am saith mlynedd. "Cefais fy synnu i glywed fy enw a elwir fel yr enillydd. Yr wyf hefyd yn falch o'r ffaith fy mod wedi gwneud hyn fel disgybl o Ysgol Cyfrwng Saesneg yng Nghymru."

Dywedodd y Cynghorydd Rhianon Passmore, Aelod Cabinet dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, "Rwy'n hynod falch bod ysgol o fwrdeistref sirol Caerffili wedi cynhyrchu talent ddawnus yn Jack. Mae'n wir yn ysbrydoliaeth ac rwy'n dymuno pob llwyddiant iddo yn ei uchelgeisiau yn y dyfodol."



DIOGELWCH 'DEALLUS' I EIDDO'R CYNGOR

Mae offer a chartrefi'r Cyngor wedi'u marcio â hylif anweledig sy'n galluogi i'r heddlu olrhain nwyddau metel sydd wedi'u dwyn.

Dros y misoedd diwethaf, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y lladradau metel o gartrefi Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, fel sawl ardal arall ledled y DU, gan gynnwys systemau gwres canolog a phibellau copr.

Felly, mae'r Cyngor wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r broblem hon drwy ddefnyddio Dŵr Deallus (SmartWater), sy'n defnyddio systemau codio fforensig ar ffurf hylif, y gallir ei ddefnyddio i adnabod eiddo unigol.

Mae bron yn amhosibl cael gwared â Dŵr Deallus oddi ar fetel a gall hyd yn oed wrthsefyll llosgi. Gall yr heddlu adnabod unrhyw fetel sydd wedi'i farcio â'r hylif yn ddiwrthbrawf, felly mae llawer yn anos i ladron werthu'r eitemau ar ôl eu dwyn a llawer yn fwy tebygol y byddant yn cael eu dal a'u harestio.

Dywedodd y Cynghorydd Gerald Jones, Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Dai, "Mae'r dechnoleg hon yn golygu y gallwn ni anfon neges glir i ladron eu bod nhw'n wynebu risg uchel iawn o gael eu dal a chael colfarn am eu troseddau. Drwy nodi'n glir bod ein cartrefi a'n hoffer wedi'u diogelu â Dŵr Deallus, gobeithio y gallwn ni atal lladron a helpu i leihau'r math hwn o drosedd ledled ein bwrdeistref sirol."

Darparu gwasanaethau i wneud gwahaniaeth go iawn

ARWEINYDD Y CYNGOR	Dirprwy Arweinydd a Thai	Dirprwy arweinydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Ad a Llywodraethu / Rheolwraig Busnes	Perfformiad a Rheoli Ased	Adfywio, Cynllunio a Datblygu Cynaliadwy	Addysg A Dysgu Gydol Oes	Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden	Prifffyrdd, Trawsgludo a Pheirianeg	Gwasanaethau Cymdeithasol
									
Cynghorydd Harry Andrews	Cynghorydd Gerald Jones	Cynghorydd Keith Reynolds	Cynghorydd Christine Forehead	Cynghorydd David Hardacre	Cynghorydd Ken James	Cynghorydd Rhianon Passmore	Cynghorydd David Poole	Cynghorydd Tom Williams	Cynghorydd Robin Woodyatt

Cafodd cyngor newydd ei ffurfio ym mis Mai yn dilyn yr etholiadau lleol ac mae'r manylion am yr Arweinydd ac Aelodau Cabinet newydd fel a ganlyn:

■ Dywedodd **Arweinydd y Cyngor, Harry Andrews**, "Rydym wedi cael cyfrifoldeb mawr gan y bobl y fwrdeistref sirol i ddarparu'r gwasanaethau cywir a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w bywydau."

"Mae'r Cabinet wedi cael ei ailstrwythuro i gwrdd â gofynion busnes heddiw. Rydym wedi gostwng y taliadau cyfrifoldeb arbennig 22-18 ac wrth wneud hynny, rydym wedi creu swydd cabinet newydd."

"Credwn mai hyn yw'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael, gan yn gynharach eleni cawsom y mandad clir gan ein tenantiaid tai cyngor i wario dros £173 miliwn i adnewyddu'r 11,000 o'n heiddo tai yn y fwrdeistref sirol."

"Rydym wedi gwneud ymrwymiad i fodloni'r Safonau Ansawdd Tai Cymru dros y deg mlynedd ar hugain nesaf. Mae hyn yn gofyn am ymrwymiad cadarn gennym a **Dirprwy Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Gerald Jones** sydd wedi cael y cyfrifoldeb hwn."

■ Bydd **Dirprwy Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Keith Reynolds** yn gyfrifol am Wasanaethau Corfforaethol, sy'n cwmpasu ystod eang o wasanaethau cefnogi a darparu adnoddau ariannol ar gyfer y cyngor.

■ Mae gan **Gynghorydd Dave Poole, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol a Hamdden** bortffolio helaeth o wasanaeth sy'n cwmpasu ystod o wasanaethau cymunedol rheng flaen. Rydym wedi gosod dileu ymddygiad gwrthgymdeithasol fel blaenoriaeth a bydd Dave yn gyrru ymlaen â hyn.

■ **Y Cynghorydd Christine Forehead** yw'r **Aelod Cabinet dros Adnoddau Dynol a Llywodraethu a Rheolwraig Busnes y Cabinet**. Mae'r cyngor yn cyflogi dros 9000 o bobl ac rydym yn edrych ar ôl eu lles, iechyd a diogelwch fel y maent yn darparu gwasanaethau i bobl leol.

■ **Y Cynghorydd David Hardacre** yw'r **Aelod Cabinet dros Berfformiad a Rheoli Asedau**. Mae gan y cyngor bortffolio eiddo helaeth ac mae sicrhau bod ein hasedau yn cael eu rheoli a'u cynnal yn briodol, yn gwella ein gallu i wneud y mwyaf o'u defnydd er lles y bobl.

■ **Y Cynghorydd Ken James** yw'r **Aelod Cabinet dros Adfywio, Cynllunio a Datblygu Cynaliadwy**.

Rydym yn awyddus i fuddsoddi ein hadnoddau yn ein trefi a phentrefi a chanolfannau er mwyn creu cyflogaeth a chyfleoedd hyfforddi da yn enwedig i bobl ifanc. Byddwn yn parhau i gefnogi busnesau lleol a chynyddu ein dewis twristiaeth sy'n dod â thua £84 miliwn y flwyddyn i'r ardal.

■ Bydd y **Cynghorydd Rhianon Passmore, Aelod Cabinet dros Addysg a Dysgu Gydol Oes** yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r buddsoddiad mewn ysgolion newydd ar draws y fwrdeistref sirol i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer yr 21ain ganrif.

■ Bydd y **Cynghorydd Tom Williams, yr Aelod Cabinet dros Brifffyrdd, Cludiant a Pheirianeg** yn chwarae rhan allweddol gan sicrhau bod ein rhaglen gyfalaf ar gyfer ffyrdd yn gwella cyfleoedd busnes ar gyfer y fwrdeistref sirol ac yn caniatáu i ddinasyddion symud yn gyflym ac yn rhwydd o amgylch yr ardal.

■ **Y Cynghorydd Robin Woodyatt** yw'r **Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol**. Mae'r cyngor wedi dechrau ar raglen gydweithredol fawr gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent ac mae hyn yn dilyn ymlaen o brosiectau llwyddiannus eraill ar y cyd o amgylch iechyd, gofal cymdeithasol a lles.

FFATRI CELFI 'GWYRDD' YN RHYMNI

Ydych chi'n chwilio am sofffa newydd neu offer trydanol, ond ar gyllideb dynn? Neu efallai hoffech chi weld eich hen gelfi yn cael eu defnyddio mewn ffordd dda?

Gall unrhyw un sy'n byw ym mwrdeistref sirol Caerffili defnyddio'r Fenter Celfi Cymunedol yn Rhymni, sy'n adnewyddu hen gelfi ac eitemau trydanol er mwyn eu gwerthu am brisiau gostyngol. Yn agored i bobl o bob cefndir, boed mewn cyflogaeth, ar incwm isel neu ar fudd-daliadau, mae dewis eang o gelfi a nwyddau gwyn o ansawdd da ar gyfer pob ystafell yn y cartref teuluol ar gael yn yr ystafelloedd arddangos yn Ystâd Ddiwydiannol y Lawnt, Rhymni.

Mae'r Fenter Celfi Cymunedol yn dibynnu ar roddion gan y cyhoedd, a byddant yn trefnu casglu oddi wrth drigolion unrhyw eitem gartref ddiangen, a fydd wedyn yn cael eu hadnewyddu a'u hailwerthu.

Gall unrhyw un sydd am wneud rhodd o gelfi ffonio **01685 846830**, ond gwnewch yn siŵr bod unrhyw gelfi clustog yn cynnwys y label perthnasol yn nodi ei fod yn cwrdd â rheoliadau diogelwch tân 1988, a bod unrhyw nwyddau trydanol yn gweithio.

Os oes gennych ddiddordeb mewn prynu celfi o'r fenter ewch i'r safle we **www.community-furniture.co.uk** i weld y nifer fawr o eitemau sydd ar gael neu ewch draw i'r siop. Yr oriau agor yw Dydd Llun - Dydd Iau 8.30am-4.30pm a Dydd Gwener 8.30-4.00.

Mae'r Fenter Celfi Cymunedol yn cael ei rheoli gan Groundwork Caerffili mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.



RHYBUDD MEPHEDRONE

Mae rhybuddion newydd wedi cael eu cyhoeddi yn lleol am beryglon cyffwr parti drwg-enwog o'r enw Mephedrone.

Mae'r symbylydd synthetig yn cael ei gyfeirio ato weithiau fel 'Meow Meow', 'MCAT', 'meph', 'bybls' ac yn lleol fel 'magic'. Cafodd ei wahardd fel cyffwr Dosbarth B yn Ebrill 2010 ar ôl iddo gael ei gysylltu â chyfres o farwolaethau ymhlith pobl ifanc, mae ofn bod defnyddwyr yn diystyru'r peryglon oherwydd ei statws cyfreithiol blaenorol.

Mae'n hanfodol bod aelodau'r cyhoedd yn sylweddoli'r peryglon sy'n gysylltiedig â Mephedrone ac yn ymwybodol o'r effeithiau. Gallai meddiant o'r cyffwr Dosbarth B cario dedfryd carchar o bum mlynedd a gall cyflenwi arwain at ddedfryd o 14 mlynedd.

Dywedodd Maria Evans, Swyddog Arweiniol Cynllunio a Chomisiynu Camddefnyddio Sylweddau'r cyngor, "Mae unrhyw gamddefnydd sylweddau ymysg pobl ifanc yn destun pryder. Y newyddion da yw os bydd pobl ifanc angen help y gallant ei gael yn fuan drwy wasanaethau

sydd ar gael yn y fwrdeistref sirol, ac maent yn ymateb yn arbennig o dda i'r rhaglenni hyn."

Os ydych chi neu rywun chi'n adnabod yn 18 oed neu iau ac mae ganddyn nhw broblem gyda chyffuriau neu alcohol, ffoniwch y rhif di-dâl **0808 168 7176**.

Os ydych chi dros 18 oed ac yn dymuno mwy o gyngor neu gymorth am gyffuriau cysylltwch â GOALS ar **02920 868675**.

Er mwyn gael cymorth i deuluoedd sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau cysylltwch â DAFS (Cymorth Cyffuriau ac Alcohol i Deuluoedd) ar **01495 240824**.



Ysbyty Ystrad Fawr,
Heol Ystrad Fawr, Ystrad Mynach,
Hengoed, CF82 7GP

Y Prif Switsfwrdd:
01443 802200



Ysbyty Ystrad Fawr – Y Stori Hyd yn Hyn

Erbyn hyn, y mae nifer o'r gwasanaethau yr oeddent ond ar gael yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Tywysog Siarl ac Ysbyty Athrofaol Cymru o'r blaen ar gael yn Ysbyty Ystrad Fawr.

Pa wasanaethau sydd ar gael yn yr ysbyty?

Mae gan yr ysbyty 269 o welyau, pob un ohonynt mewn ystafelloedd gwely sengl en-suite sydd yn helpu i gynnig gofal o safon uchel, lleihau cyfraddau heintiau a ddaliwyd yn yr ysbyty ac yn rhoi'r preifatrwydd a'r urddas sydd ei angen ar gleifion. Mae gan yr ysbyty tua 640 o staff.

Mae gan yr ysbyty:

- **Ganolfan achosion brys leol 24 awr sydd wedi'i harwain gan nyrsys, uned iechedd meddwl integredig.**
- **Llawfeddygaeth ddydd a gwasanaethau diagnostig.**
- **Gleifion allanol a therapi cynhwysfawr.**
- **Wardiau ar gyfer asesu meddygol, cyflyrau aciwt, adsefydlu, strôc, llawdriniaeth a chleifion bregus.**
- **Tair ward iechedd meddwl.**

Rhifau Defnyddiol

Ysbyty Ystrad Fawr: 01443 802200

Galw Iechyd Cymru: 0845 46 47

GP - Tu Allan i Oriau: 0845 600 131

Llinell Deintyddol: 01633 488389

Ffeithiau am Ysbyty Ystrad Fawr -

- Ers i'r ysbyty agor y mae 50,850 o gleifion wedi'u trin.
- Mynychodd 9,816 o gleifion glinigau rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2012.
- Am y tro cyntaf erioed y mae Sganiwr CT ar gael o fewn y Fwrdeistref ac y mae rhyw 2,500 o sganiau wedi'u cynnal hyd yn hyn â'r cleifion yn llwyddo i osgoi gorfod teithio i Ysbyty Nevill Hall ac Ysbyty Brenhinol Gwent.
- Mae 3,500 mwy o belydrau-x wedi'u tynnu o gymharu â chyfnod tebyg yn Ysbyty Glowyr Dosbarth Caerffili. Y rheswm dros hyn yw cynnydd oriau agor y Ganolfan Achosion Brys Leol a, hefyd, clinigau cleifion allanol ychwanegol sydd yn cael eu cynnal yn yr ysbyty.
- Derbyniodd dros 2,000 o gleifion dermatoleg driniaeth ffototherapi ers mis Chwefror 2012. Yn y gorffennol, byddai'n rhaid iddynt deithio i Gasnewydd.
- Erbyn hyn, y mae pwll hydrotherapi ar gael o fewn yr ardal am y tro cyntaf erioed – mae 882 o gleifion wedi derbyn triniaeth yn y pwll hyd yn hyn.
- Mae rhyw 1,000 mwy o sganiau uwchsain wedi'u cynnal.
- Ganwyd 165 o fabanod yn yr ysbyty yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn hon – mae mwy o fenywod yn dewis yr amgylchedd newydd yn Ysbyty Ystrad Fawr i roi genedigaeth.

Dywedoch chi, Gwnaethom ni -

Tynnwyd sylw at nifer o broblemau cychwynnol yn cynnwys – angen mwy o arwyddion, man gollwng ar gyfer y Ganolfan Achosion Brys Leol, cleifion yn teimlo'n ynysig mewn ystafelloedd sengl, methu â chael BBC Wales, angen signal ffônau symudol gwell a mwy o gadeiriau olwyn.

Erbyn hyn, y mae'r materion hyn wedi'u datrys, gosodwyd 250 o arwyddion ychwanegol, arwyddion tuag at fan gollwng y Ganolfan Achosion Brys Leol, cyflwynir gwasanaeth cyfeillio ac y mae'r ystafelloedd dydd wedi'u hymestyn i osgoi'r cleifion yn teimlo'n ynysig, gosodwyd erial BBC Wales ynghyd â system atgyfnerthu ar gyfer ffônau symudol ac archebwyd 20 mwy o gadeiriau olwyn a byddant ar gael wrth y mynedfeydd. Mae'r ysbyty eisoes yn trin mwy o gleifion na'r disgwyl a phenodwyd dros 20 o nyrsys newydd.

Mae gwasanaethau arlwy'r ysbyty yn paratoi rhyw 720 o brydau bwyd ar gyfer cleifion bob dydd! Erbyn hyn, y mae'r holl fwyd yn cael ei goginio yn ffres ar y safle lle, yn y gorffennol, defnyddiodd rhai ysbytai y dull 'coginio o rewi'. Erbyn hyn, y mae siop Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol y Merched ar agor a gwasanaeth troli o amgylch y wardiau wedi'i gyflwyno.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â'r Tîm Cynnwys ar (01495) 241244



Cysyniad Newydd mewn Gofal Iechyd Brys -

Mae'r Ganolfan Achosion Brys Leol yn cynnwys Uned Mân Anafiadau a'r Uned Meddygol Aciwt yn cynnig cysyniad newydd ar gyfer gofal iechyd brys. Erbyn hyn, y mae gwasanaethau brys ar gael 24 awr y dydd bob dydd y flwyddyn.

Yr Uned Mân Anafiadau -

Diffiniad Mân Anafiadau yw anafiadau sydd wedi'u profi o fewn y 48 awr flaenorol, os cyn hynny dylai cleifion fynd at eu meddyg teulu neu eu nyrs practis.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cwtau, crafiadau a chleisio.
- Clwyfau diweddar (yn ystod y 48 awr flaenorol) yn cynnwys y rhai efallai y bod angen gludo, pwytho neu steri-strip arnynt.
- Mân losgiadau a sgaldiadau.
- Ysigiadau a thoriadau.
- Brechiad Tetanws yn dilyn anaf.
- Tynnu darnau estron o'r llygaid, y trwyn neu'r clustiau.
- Problemau llygaid mân yn cynnwys tynnu lensys cyffwrdd.
- Brathiadau pryfed neu frathiadau anifeiliaid eraill.
- Mân anafiadau pen (heb golli ymwybyddiaeth, heb chwydu a dim symptomau eraill e.e. pen tost, cyfog, aflonyddu gweledol, pendro.
- Rynnu modrwyon, clustlysau neu stydiau.
- Anafiadau aelodau lle y bod modd i gleifion barhau i roi pwysau ar y droed neu symud bysedd.

Ar hyn o bryd y mae tîm o 22 o Ymarferwyr Nyrsio Brys (ENP) yn gweithio rhwng Ysbyty Ystrad Fawr ac Ysbyty Brenhinol Gwent.

Ymarferwyr Nyrsio Brys yw nyrsys sydd â sgiliau uchel sydd yn gallu cynnal nifer o brofion diagnostig a, hyd yn oed, rhoi presgripsiwn am rai meddyginiaethau. Maent wedi'u lleoli o fewn yr Uned Mân Anafiadau ac, hefyd, yn gallu atgyfeirio cleifion i'r arbenigwr mwyaf priodol.

Esboniodd Claire McCarthy, Ymarferydd Nyrsio Brys: "Dyma gyfnod cyffrous i fod yn nyrsio fel Ymarferydd Nyrsio Brys am fod ein rôl yn ehangu



trwy'r amser. Mewn rhannau eraill o Gymru y mae mwy o ganolfannau fel hyn yn cael eu sefydlu ac y mae modd iddynt ymdrin â phopeth heblaw am y salwch a'r anafiadau mwyaf difrifol."

Yr Uned Meddygol Aciwt -

Yn yr Uned Meddygol Aciwt caiff cleifion sydd â chyflwr meddygol eu hasesu ac y mae modd eu derbyn i'r ysbyty ar gyfer arsylwi. Mae'r uned hon wedi'i staffio gan feddygon. Gall Ymarferwyr Nyrsio Brys atgyfeirio cleifion yma a, hefyd, y mae modd cysylltu â meddyg os oes ganddynt bryderon ynghylch claf y maent yn ei drin yn yr Uned Mân Anafiadau.



Hefyd, y mae'r Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau wedi'i leoli o fewn y Ganolfan Achosion Brys Lleol sydd yn golygu bod meddygon teulu a gwasanaethau gofal sylfaenol cymunedol wedi'u cysylltu'n agos.

Bydd amseroedd aros llawer byrrach os caiff y Ganolfan Achosion Brys Leol ei defnyddio yn briodol meddai Ymgynghorydd Uned Damweiniau ac Achosion Brys, Jane Gwilliam... "Bydd pobl leol yn derbyn gofal prydlon ac ardderchog sydd yn eu hatal rhag gorfod teithio i unedau Damweiniau ac Achosion Brys prysur lle y bydd angen iddynt aros lawer hirach. Mae'r staff wedi'u hyfforddi i safon uchel i gydnabod pan fo cyflwr yn fwy difrifol ac yn galw am sylw meddygol meddyg. Felly, os caiff claf ei atgyfeirio y rheswm dros wneud hynny yw er lles y claf".



■ Mr Kartik Hariharan (far right) and his team in the foot and ankle centre.

Sganwyr MRI a CT -

Erbyn hyn, y mae sganio MRI a CT ar gael yn yr ysbyty. Mae hyn yn cynnig y dechnoleg ddiweddaraf i'r cleifion lleol heb orfod teithio i ysbytai eraill e.e. Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall.

Di-fwg -

Mae Ysbyty Ystrad Fawr 100% yn ddi-fwg. Rydym ni'n ddiolchgar am gefnogaeth y cyhoedd o ran cadw'r ysbyty (yn cynnwys y tir a'r meysydd parcio) yn ddi-fwg ar bob amser. Bydd hyn yn helpu i gadw'r ysbyty newydd yn amgylchedd iach a hyfryd i bawb.

Canolbwyntio ar wasanaeth newydd -

Agorwyd Canolfan Traed a Fferau yn yr ysbyty yn ddiweddar. Y mae hyn yn golygu bod yr holl wasanaethau cleifion allanol a llawfeddygol yn ymwneud â phroblemau'r traed neu'r fferau, erbyn hyn, ar gael yn Ysbyty Ystrad Fawr.

Mae gan y Ganolfan 'siop un stop' lle y gall cleifion dderbyn nifer o driniaethau yn ystod un ymweliad e.e. apwyntiad clinig, radioleg, asesiad ffitrwydd ar gyfer llawdriniaeth, asesiadau orthoteg a ffisiotherapi ac, yn olaf, llawdriniaeth os oes angen.

Ar hyn o bryd nid yw'r cyfleuster hwn ar gael ar gyfer cleifion orthopedeg o fewn unrhyw ysbyty GIG arall yng Nghymru ac ond ychydig iawn o ganolfannau fel hyn sydd yn bodoli yn y DU. Mae'n llawn technoleg ddiweddaraf yn cynnwys peiriannau MRI, CT, uwchsain symudol i helpu o ran diagnosis a thriniaeth.

Meddai Mr Kartik Hariharan, Llawfeddyg Ymgynghorol Orthopedeg a Thraed a Fferau, "Dyma gyfle cyffrous iawn ar gyfer gwasanaethau traed a fferau a fydd yn cynnig manteision sylweddol i'n cleifion. Mae fy nghydweithwyr a finnau yn ystyried hwn yn gyfle unigryw i symleiddio gwasanaethau traed a fferau yn y rhan hon o Gymru.

StreetPride BalchderStryd
 01443 866566

New Claims: 01443 866567
 Hawliau Newydd: **01443 866567**

Existing Claims: 01443 864099
 Hawlwyw Newydd: **01443 864099**

Housing & Council Tax Benefits
Budd-daliadau Tai/Treth y Cyngor

New Claims: **01443 866567**
Hawliau Newydd:

Existing Claimants: **01443 864099**
Hawlwyr Newydd:

New Claims: **01443 866567**
Hawliau Newydd:

Existing Claimants: **01443 864099**
Hawlwyr Newydd:

Gafodd y gwaith arfaethedig ei amlinelli mewn Diwrnod Gwybodaeth gyhoeddus a gynhaliwyd yn ddiweddar yn y pentref a fynychwyd yn dda gan nifer o drigolion lleol, felly mae'n bwysig bod y penderfyniad hwn yn cael ei throsglwyddo i bawb sydd â diddordeb. Mae'r cyngor yn awr yn ystyried y ffordd ymlaen a bydd yn edrych ar opsiynau eraill os yw'n briodol.

Sign up to receive regular information about local events by e-mailing: events@caerphilly.gov.uk • Cofrestrwrch i dderbyn gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau lleol drwy e-bostio: digwyddiadau@caerffili.gov.uk

Parc Cwm Darren • Parc Cwm Darren
Have a go at pond dipping to see what lurks in the deep waters of Parc Cwm Darren or create your own aquatic beastie!
Pond dipping: 11am to 12.30pm and 1.30pm - 3pm.
Art Attack: 11am to 3pm.
*Ewch ati i chwilota yn y pwll i weld beth sy'n byw yn nyfroedd dwfn
Parc Cwm Darren neu beth am greu eich bywstfil dwr eich hun!*
Chwilota yn y pwll : 11am i 12.30pm a 1.30pm i 3pm.
Cyrch Celf : 11am i 3pm.
01495 235219

Bring all the family to this fantastic fun packed day! On offer will be Musical & Sport performances - A Dog show - Face painting - Bungee run - Sporting activities - Inflatable assault course - Archery - Speed shot sumo wrestling - Badge making - Bouncy castle - Information stalls - Local crafts suppliers & traders - Refreshments and much more! Tickets cost £10 for family up to five or £4 under 16s, £2 per adult. All activities once inside are FREE!!!

*Dewch at teulu i gyd i'r diwrnod gwyth, llawn hwyli hwn!
Bydd perfformiadau Cerdd a Chwaraeon ar gael – Sioe Cŵn
– Paentio wynebwa – Rys Bynji – Gweithgareddau Chwaraeon –
Cwrs antur chwyddadwy – Saethyddiaeth – Reslo sumo
speed shot – Gwneud bathodynau – Castell neidionau
gwybodaeth – Gwerthu'r crefftiau lleol – Lluniatu a llawer
mwy! Tocynnau'n costio £10 i deul o hyd at bump neu £4 i
blant o dan 16, £2 i oedolion. Ar ôl talu'r bwp mynediad, mae
pob gweithgaredd AM DDIM!!!!*

*Ymunwch â ni ar y daith gerdded boblogaidd hon o amgylch
Cwm Nantcaron a Mynydd Henllys. Gallwch fwynhau golygfeydd
hyfryd o'r Bannau a Môr Hafren o Dwmbarlwm a chael rhywfaint
o flas ar hanes yr ardal!*

01495 272001

Taith gerdded o gwmpas pentref Man-moel, drwy'r coed, ar y tir pori a dros y comin, gyda Tim Collier. Dewch â chamera a chinio gyda chi. Cwrdd yn Neuadd y Pentref, Man-moel NP12 0RJ. Bydd angen trefnu lle am y digwyddiad hwn.

078 3621 7110

Llancaiaich Fawr Manor 01443 412248

Shiver me Timbers! A welcome return of last year's popular fancy dress event, especially for children aged 3-12. There will be Swashbuckling indoor and outdoor activities with something for everyone. Accompanying adults free. Please note no unaccompanied adults or children.

Maenordy Llancaiaich Fawr 01443 412248

lo ho ho! Mae digwyddiad gwisg ffansi poblogaidd y llynedd yn dychwelyd, yn arbennig i blant 3-12 oed. Bydd gweithgareddau cyffrous dan do ac yn yr awyr agored, gyda rhywbeth at ddant pawb. Nid oes cost i'r oedolion sy'n dod gyda'r plant. Nodwch, rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn, a rhaid i oedolion fod yng nghwmni plentyn.



www.lancaiachfawr.co.uk

Parc Cwm Darran
 Have a go at Bird Box and Bird feeder making
 and take them home to put up in your garden.
 £3 per bird box and £1 per bird feeder.
01443 875557

Parc Penallta
 Join us for a week of fun packed family activities at Parc Penallta. There will be a wide range of wildlife or countryside related activities to enjoy from catching a dragon to surfing the skies.

01443 816853

Wych ati i boly yn y TJ Weindio! Gallwch darganfod eitemau dirgel a gwyby yn digwyddiad hanes ac archeoleg ymarferol hwnnAtlin i bobl o bob oedran, Rhann o wyl Archeoleg Prydain.

01443 822666

DIGWYDDIAD AM DDIM!!!! Mae'r carnifal yn dechrau ar ben uchaf Heol Fawr y Coed Duon i gallwch ddilyn y carnifal a'r ffloftiau ar hyd yr Heol Fawr hyd at ei ddiwedd yn Swyddfeydd Cyngor, Pontllan-fraith. Cewch brynhawn llawn hwyl i'r teulu gydag adloniant cerddorol, paentio wynebaw, gweithgareddau i blant, bwyd a stondinau bwyd a chrefft a reidiau ffai

Owain Glyndwr Playing Fields • Caeau Chwarae Owain Glyndwr
The annual festival kicks off this year with the Parade of Nations, followed by the traditional funfair, entertainment and a fireworks display on Friday night. Saturday and Sunday offers over 150 food and craft stalls, dance, music, entertainment, funfair plus lots of activities for the whole family. There is free entry into Caerphilly Castle on Saturday and Sunday only. FREE EVENT!!! Come along for a fun weekend for all the family.

Bydd yr wyl flynyddol yn dechrau eleni gyda Gorymdaith y Cenhedloedd, gyda ffair draddodiadol, adloniant a bethn gwyllt ddilyn ar nos Wener. Dydd Sadwrn a dydd Sul bydd dros 150 o strondinau bwyd a chreffft, dawns, cerddoriaeth, adloniant, ffair a llawer o weithgareddau i'w teulu i gyd. Bydd mynediad am ddim i Gaerll Castell ffrwydly ddydd Sadwrn a dydd Sul yn unig. DIGWYDDIAD AM DDIM! Dewch draw am benwythnos llawn hwyl i'w teulu i gyd.

01495 272001

Cwmcam Forest Drive • Ffordd Goedwig Cwmcam

Come along and join the warden for 2 hours of ranger fun! We will be making bug homes, butterfly feeders, hunting for bugs and berries and much more. The Club is run every Wednesday in August and booking is essential as numbers are limited. Children must be accompanied by an adult. Minimum age 7yrs.

Dewch draw i ymuno â'r warden am ddwy awr o hwyl! Byddwn ni'n creu cartrefi i bryfed, bwydydd pili-palad, chwilio am bryfed a mwy o'r llawer mwy. Cynhelir y Cwb bob dydd Mercher ym mis Awst a rhaid archebu ymlaen llaw am fod llefydd yn brin. Rhaid i blant fod gydag oedolyn. Isafswm oedran 7 oed.

01495 272001

Blackwood Showfields • Maes y Sioe Coed Duon
*Entrance fee payable at the gate come along to the annual
 agricultural show with livestock, horse exhibits, trade
 stands and craft displays. Please call for further details.*
*Telir pris mynediad wrth y giât. Dewch draw i'r sioe amaeithyddol
 gyda da byw, arddangosiadau ceffylau, sioeau masnach
 ac arddangosiadau crefft. Am ragor o fanylion ffoniwch.*
01633 440281

Dathlwyd yr haf flympaidd hwn gyda diwrnod o chwaraeon a hwyl.
Rhewch gynnig ar gemau, gweithgareddau a chystadlaethau o'r
gorffennol a dysgwch fwy am bobl leol sy'n arwyr ym myd chwaraeon!
01443 822666

Gwent Association of Voluntary Organisations (GAVO) and partners are holding a Play Day celebration between 12pm and 4pm. Play Day is the celebration of the child's right to play. All the family will be able to try a range of play opportunities including; den building, junk modeling, dressing up, sports, water slides, arts and crafts, pond dipping, a climbing wall, stalls and much more. Bring along a picnic and have some play day fun! The event is **FREE** and all ages can participate.

www.playday.org.uk • 01443 863540

Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (CMGG) a phartneriaid yn cynnal dathliad Dydd Chwarae rhwng 12pm a 4pm. Mae Diwrnod Chwarae yn ddatliadu o hawl plentyn i chwarae. Bydd yr holl deulu yn gallu rhoi cynnig ar ystod o gyfleoedd chwarae, gan gynnwys; adeiladu ffau, modelu jinc, gwsgio i fynw, chwaraeon, sleidiau dŵr, celf a chrefft, trochi mewn pwll, wal ddringo, stondinau a llawer mwy. Dewch â phicnic a mwynwnech diwrnod chwarae hwyli! Mae'r digwyddiad **AM DDIM** a gall bob oed gymryd rhan.

The council's Public Protection team aims to ensure that the county borough is a healthy, safe & fair place for people to live, work & visit. One of the team's key tasks is to expose and bring before the courts those individuals and businesses we discover acting illegally.

Below are examples of recent prosecutions:

Defendant	Offence	Court Decision
Sukhjot Sandhu trading as Top Stores, Penyrheol, Caerphilly.	<i>31 May 2012 at Caerphilly Magistrates Court.</i> Sale of alcohol to person under the age of 18.	£135 fine, £258.42 costs and £15 victim surcharge. Prosecuted under the Licensing Act 2003.
Thomas John Davies trading as The Hafodyrnyns Inn.	<i>31 May 2012 at Caerphilly Magistrates Court.</i> Sale of alcohol to person under the age of 18.	£265 fine, £515 costs and £15 victim surcharge. Prosecuted under the Licensing Act 2003.
Gareth Rhys Collins trading as St Martins Car Sales Caerphilly.	<i>31 May 2012 at Caerphilly Magistrates Court.</i> Supply of a dangerous motor vehicle and statement on invoice indicating that consumer did not have any statutory rights.	£1600 fine, £754.11 costs and £15 victim surcharge. Prosecuted under the Consumer Protection from Unfair Trading Regulations 2008. General Product Safety Regulations 2005.
Owain James Brown trading as GMOT Services Llanbradach.	<i>7 June 2012 at Caerphilly Magistrates Court</i> Advertising for sale and selling "clocked" Motor vehicle. Advertising and selling a vehicle in the course of a business without disclosing fact he was a motor trader.	£400 fine, £500 costs and £15 victim surcharge, £300 compensation to consumer. Prosecuted under Consumer Protection from Unfair Trading Regulations 2008
Karen Louise Harris & David John Harris trading as Spike's Shop, Rhymney.	<i>11 June 2012 at Abergavenny Magistrates Court.</i> Sale of alcohol to persons under the age of 18 (2 offences).	KL Harris £180 fine, £400 costs and £15 victim surcharge. DJ Harris £180 fine, £400 costs and £15 victim surcharge. Prosecuted under Consumer Licensing Act 2003.
Michael Pipe, Longfellow Gardens, Graig Y Rhacca	<i>18 June 2012 at Abergavenny Magistrates Court.</i> Failure to provide any waste transfer documentation during a scrap metal stop check operation.	12-month conditional discharge and ordered to pay costs of £85 and £15 victim surcharge. Prosecuted under the Environmental Protection Act 1990 Section 34 (5).

To view the full list, visit www.caerphilly.gov.uk/prosecutions
Prosecution results are provided for a limited period to promote the openness of the council's actions to local residents. Information provided must not be reused in any form without the agreement of CCBC.